

H1. SEFYLLFA BRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Confensiwn Bonn (Atodiad II and IV) Confensiwn Berne (Atodiad II) Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd ^a (Atodiad II)
DU a Chymru	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Atodiad 5 a 6) Rheoliadau Cynefin ^b (Atodiad 2) Deddf Amddiffyn Mamaliaid Gwyllt 1996 Blaenoriaeth CGB DU Rhestr S74 Cymru ^c
Gwynedd	CGB Eryri

1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae'r ystlum trwyn pedol lleiaf^d yn gyffredin drwy ganol a de Ewrop, ond mae eu niferoedd wedi gostwng yn arw yn rhannau gogleddol ei rychwant. Mae Prydain yn cynnal un o gadarnleoedd olaf y rhywogaeth yma, er fod y rhywogaeth yn brin ym Mhrydain ar y cyfan, gan eu bod wedi eu cyfyngu i dde orllewin Lloegr, Cymru a gorllewin Iwerddon. Arferai fod yn bresennol yn ne ddwyrain Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Amcangyfrifir fod poblogaeth y DU o 14,000 sydd wedi eu rhannu yn gyfartal rhwng Lloegr a Chymru^e.

1.3 Statws yng Ngwynedd^f

Mae tua 18 o glwydfanau meithrin i'r ystlum trwyn pedol lleiaf y gwyddys amdanynt yng Ngwynedd. Mae naw safle cysgu'r gaeaf a saith safle arall (lloeren neu glwydfanau nos) wedi'u cofnodi ym mas-data Grŵp Ystlumod Gwynedd, er ei bod yn hynod o debygol fod eraill na wyddys amdanynt.

Mae llawer o SoDGau wedi ei dynodi yng Ngwynedd / Parc Cenedlaethol Eryri oherwydd presenoldeb clwydfanau ystlum trwyn pedol lleiaf, yn bennaf o amgylch Dolgellau/ Penmaenpool a Thalsarnau. Coedtiroedd aa saleodd ac ymgeisydd ACA Ystlumod Gwynedd yw canolbwyt dosbarthiad Ystlumod trwyn pedol leiaf yng Nghymru.

Mae clwydfanau ystlumod wedi eu nodi ym Mhen Llŷna hefyd. Mae Ymgeisydd ACA Glynllifon y nfeithrinfa a safle gaeafgyssgu i bobloaeth fawr ohonynt.

^a Gorchymyn Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol i anifeiliaid a blodau gwyllt.

^b Rheoliadau Cadwraeth Ewropeaidd (Cynefinau Naturiol) 1994

^c Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wyllt yng Nghymru - Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. Hawlfraint y Goron, 2003.

^d *Rhinolophus hipposideros*

^e Cynllun Gweithredu'r DU ar gyfer yr Ystlum trwyn pedol lleiaf

^f O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb

2. FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YMA YNG NGWYNEDD

- Mae dymchwel, dirywiad neu atgyweirio digydymdeimlad o hen adeiladau yn arwain at golli manau clwydo a chysgu'r gaeaf. Gall fod yn annodd adnabod coloniau bach o'r ystlum trwyn pedol lleiaf cyn i ddatblygiad ddigwydd.
- Collir clwydfanau cysgu'r gaeaf tanddaearol fel safleoedd oherwydd iddynt gael eu cau am resymau diogelwch.
- Colled o gynefinoedd bwydo sydd â llawer o bryfed, yn enwedig nodweddion llinellol megis gwrychoedd, coedwrych a phlanhigion mewn manau coediog ac ar lannau afon, yn ogystal â choedwigoedd, tir gwlyb a hen borfeydd, o ganlyniad i newidiadau mewn ymarferion ffermio, datblygiad ayyb.
- Darnio cynefin a diffyg llwybrau hedfan rhwng y darnau - yn enwedig gwrychoedd, bydd yr ystlum trwyn pedol lleiaf yn croesi toriadau bach mewn strwythurau llinellol, ond yn hedfan yn isel ac agos iawn i'r ddaear ac felly mewn perygl i'w ysglyfaethu neu ei daro gan gerbydau tra'n croesi ffyrdd.
- Credir fod defnydd o gadwolion pren sy'n wenwynig a chemegau yn cael effaith negyddol ar boblogaethau ystlumod - drwy wenwyno uniongyrchol a thrwy leihau argaeledd y rhywogaethau hynny y maent yn eu hysglyfaethu.
- Credir fod y rhywogaeth yma yn fregus iawn mewn gaeafau caled.
- Mae aflonyddu ar ystlumod sy'n cysgu'r gaeaf yn achosi dirywiad mawr yn eu hystorfa o fraster, ac yn arwain at gyfradd uwch o farwolaeth; gallai hyn ddod yn broblem fwy gyda lefelau uwch o weithgaredd hamdden ymysg ffactorau eraill.

3. CGR A CGC PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Coedtiroedd derw yr ucheldir, Coedtiroedd gwlyb. Coedtiroedd ynn yr ucheldir, Coedtiroedd prysgwydd, Coed hynafol, parciau a phorfeydd coediog yr iseldir, Cloddiau, Creigiau Chwareli, mwynfeydd a sgrï mewndirol, Dolyd gwair a porfeydd yr iseldir, Gwrychoedd, Coridorau trafndiaeth, Coridorau afon, Adeiladau, Cloddiau, Porfeydd a dolydd iseldirol, Rhostir, Gwlybtiroedd.

Ystlumod

4. CAMAU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Gall yr ystlum trwyn pedol lleiaf gael ei ganfod mewn rhannau o Wynedd sydd wedi eu hadnabod fel safleoedd Bywyd Gwyllt posib, neu wedi eu dynodi fel GNL, SoDdGA, GNG neu ymgeisydd ACA
- Mae ymgeisydd ACA Glynllifon (sy'n safle cysgu'r gaeaf ac yn safle mamolaeth) wedi ei ddynodi yn bennaf oherwydd ei boblogaeth o ystlumod trwyn pedol lleiaf. Mae yACA Clwydfeydd Coed Derw Meirionnydd a Safleoedd Ystlum yn cynnwys y rhan fwyaf o glwydfeydd mamolaeth ym Meirionnydd a pheth gaeaf dai, a hwn yw canolbwynt dosbarthiad yr ystlum trwyn pedol lleiaf yng Nghymru.
- Ble fod angen AEAar gyfer datblygiadau arfaethedig (e.e. cynlluniau adeiladu ffyrdd), dylai'r rhain gynnwys arolygon am y rhywogaethau a ddiogelir gan gynnwys ystlumod. Ble canfyddir hwy, mae'n bosib y bydd rhaid cael mesurau lliniaru.

4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gwneud gwaith amddiffyn ac atgyweirio ar safleoedd clwydo, ac yn gweithredu ar system gyngorol sy'n gweithredu Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Mae taflen *Wildlife and Buildings - guidelines for property owners*, yn cynnwys gwybodaeth/ cysylltiadau ynghylch beth ddylid ei wneud os oes ystlumod yn eich adeilad, a dosberthir y daflen gan Gyngor Gwynedd i'r holl ymgeiswyr perthnasol yng nghyswllt materion cynllunio megis atgyweirio neu drawsnewid adeiladau.

- Yr ystum trwyn pedol lleiaf yw un o'r rhywogaethau sy'n gymwys ar gyfer cyllideb o Gynllun Rhywogaeth Her Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

4.3 Archwilio, ymchwilio a monitro

- Monitro cydlynedig o glwydfanau'r haf, nythfa mamolaeth a safleoedd cysgu'r gaeaf, gan CCGC a Grŵp Ystumod Gwynedd, sy'n bwydo i'r Rhaglen Monitro Ystumod Cenedlaethol wedi'i chydlynu gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystumod.
- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn rhannol gyllido gradd PhD ar ddefnydd cynefin gan yr ystum trwyn pedol lleiaf er mwyn rhoi gwybodaeth i realwyr tir ac amaeth.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

- Canfod a mesur holl nythfeydd mamolaeth a safleoedd cysgu'r gaeaf yng Ngwynedd
- Cynnal y rhychwant presennol o ystumod trwyn pedol lleiaf yng Ngwynedd, trwy gynnal a chadw holl glwydfanau mamolaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd a cynnal a chadw lefel gyffredinol cyfanswm yr adnodd glwydfanau
- Atgyfnerthu a chynyddu ardal a safon cynefin o amgylch safleoedd clwydo, yn cynnwys clwydfanau lloeren a nos
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ystum trwyn pedol lleiaf

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Camau	Partner(iaid) ⁹
Polisi a Deddfwriaeth		
1	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mewn mannau sensitif yn cydfynd â chadwraeth yr ystlumod trwyn pedol lleiaf TARGED/Amserlen: Cyfredol	CG
Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd		
2	Ystyried dynodi safleoedd addas i ystlum trwyn pedol leiaf fel safleoedd Bywyd Gwyllt TARGED/Amserlen: cychwyn y broses ym2006	CG, partneriaid perthnasol
3	Datblygu strategaeth rhanbarthol er mwyn rheoli cynefinoedd yr ystlumod trwyn pedol lleiaf sy'n cynnal a chadw eu canolfannau poblogaeth presennol, ac yn hyrwyddo eu hymlediad. TARGED Amserlen: Erbyn 2006	GBG AACChG, Cadw, CC, CCGCAA, CCth, CG, APCE, YBGV
4	Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grantiau yn cynnwys Tir Gofal, Cynllun Grantiau Coedwigoedd, AAS Llyn ac / neu defnyddio cytundebau rheolaeth ble fo hynny'n addas i sicrhau rheolaeth ffafriol mewn ardaloedd bwydo pwysig i'r ystlumod trwyn pedol lleiaf, gan ystyried anghenion rhywogaethau CGB cysylltiedig(gwrychoedd, coedtiroedd a choridorau afonydd) TARGED Amserlen: Cyfredol	CCGC, CC, GBGGBG, AACChG, Cadw, FfBG, UFC, CG, UAC, YG
5	Chwilio am nawdd ar gyfer prosiect grantiau rheoli tir bioamrywiaeth a fyddai yn cynnwys grantiu ar gyfer rheolaeth addas ar gyfer ystlum trwyn pedol leiaf	CG, partneriaid perthnasol
6	Sicrhau fod cynlluniau grant Tir Gofal a Choedwigoedd, neu unrhyw gynllun grantiau amaeth-amgylcheddol, yn nalgylchoedd hysbys clwydfanau ystlumod trwyn pedol lleiaf, yn cynnwys rhaglenni gwaith cyfalaf a phresgripsiynau rheoli cynefinoedd er mwyn amddiffyn a gwella cynefinoedd posib ar gyfer bwydo a chyfnwid . TARGED: Ci'w bennu/cyfredol	CCGC AACChG CCth, GCFBG, CG
7	Adolygu'r angen am gytundebau rheolaeth ar SoDGAau mewn ardaloedd bwydo pwysig TARGED: Erbyn 2006	CCW, GYG
8	Sicrhau fod gan ystlumod fynediad clir at holl gliwydfanau, a'u hamddiffyn gyda griliau neu lidiardau ble mae angen TARGED/amserlen: Cyfredol	CCW, GYG,
Cyngor		
9	Sicrhau fod rheolwyr tir ac ymgynghorwyr (yn enwedig os ydynt yn gweinyddu cynlluniau amaeth-amgylcheddol perthnasol) yn derbyn cyngor ar leoliad y prif safleoedd clwydo, eu pwysigrwydd a rheolaeth addas o'r llecyn sy'n eu hamgylchynu TARGED/AMSERLEN: Cyfredol/i'w bennu	CCW, GYG, CG
10	Darparu cyngor a hyfforddiant rheolaidd ar faterion cadwraeth ystlum trwyn pedol lleiaf i swyddogion rheoli datblygiad, peirianwyr priffyrdd, staff AA, yn cynnwys hyrwyddo digwyddiadau hyfforddi yn y dyfodol wedi'i trefnu gan Grwp Llywio Lonydd a Dyfrgwn. TARGED/ AMSERLEN: Ymateb ar sail ad hoc	CCGC CG, AyA,
11	Darparu cyngor ar yr ystlum trwyn pedol lleiaf a rheolaeth cynefin i berchnogion tir, penseiri, adeiladwyr a rheolwyr tir. TARGED/ AMSERLEN: Ymateb ar sail ad hoc	CCGC, GYG

⁹ Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

Arolwg, ymchwil a monitro		
12	Parhau i fonitro'r prif nythfeydd mamolaeth a gaeafgysgu. TARGED AMSERLEN: Cyfredol	CCW, GYG
13	Trefnu arolygon addas i ystlumod mewn hen adeiladau sydd i'w hatgyweirio, dymchwel neu newid eu defnydd TARGED/ AMSERLEN: ymateb yn ol ygalw, Cyfredol	CCGC, GYG, CG, Cadw, YG
14	Trefnu arolygon addas i ystlumod mewn cloddfeydd sydd i'w cau neu newid eu defnydd TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, GYG, CG
15	Trefnu arolygon addas i ystlumod mewn unrhyw safle ystlumod posibl sydd wedi eu canfod gan aelodau'r cyhoedd, ayyb. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CCW, GYG
16	Rhoi cymorth gydag ymchwil i gynefinoedd neu lwybr hedfan sy'n cael eu defnyddio gan yr ystlum trwyn pedol lleiaf er mwyn cynnal statws cadwraeth ffafriol i'r poblogaethau, ble mae hynny yn addas a dichonadwy TARGED AMSERLEN /: Cyfredol	YBGV, CCGC, CEH, CG, PCB,
Cyfathrebu a chyhoeddu rwydd		
17	Dosbarthu taflenni gwybodaeth yn cynnwys llyfryn y CCGC ar ystlumod, taflenni ar reolaeth cynefin ystlumod a gynhyrchwyd gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, y Pwyllgor Cadwraeth Natur ar y Cyd, Ymddiriedolaeth Pobl ar gyfer Rhywogaethau mewn Perygl, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent ac eraill, llyfryn y CCGC ar ystlumod yn y to a'r daflen ar Fywyd Gwyllt ac Adeiladau i berchnogion tir a rheolwyr mewn digwyddiadau lleol a sioeau. TARGED AMSERLEN /: Cyfredol	CG, CCGC, GYG, GCFBG
18	Mewn cyswllt gyda grwpiau CGBL Gogledd Cymru eraill, CCGC, GBG a CBNGC , cynhyrchu fersiwn newydd o'r llyfryn Bywyd Gwyllt ac Adeiladau, a sicrhau ei ddosbarthiad i ymgeiswyr cynllunio posib. TARGED /AMSERLEN: Erbyn 2005	CG, CCGC, GYG, CBGGC
19	Dosbarthu taflenni gwybodaeth perthnasol i brif berchnogion tir a chyrrff perthnasol yn nalgylch prif boblogaethau y rhywogaeth. TARGED /AMSERLEN: Cyfredol: Erbyn 2005	CCW, GYG, CG
20	Hyrwyddo'r ystlum trwyn pedol lleiaf fel atyniad twristaidd posib i fusnesau lleol mewn cyswllt gyda Bwrdd Croeso Cymru TARGED AMSERLEN /: Cyfredol	CG, GYG, YBGV
21	Defnyddio Parc Glynllifon fel prif safle ar gyfer cadwraeth ac ymarfer gorau mewn rheoli cynefin i'r ystlum trwyn pedol lleiaf, mewn cyswllt â Choleg Meirion Dwyfor. TARGED AMSERLEN /: Cyfredol	CCGC, GYG, CG, YBGV

7 PARTNERIAID A CHYFLEON

7.1 Prif bartner ar gyfer **CGR**

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (**CCGC**)

7.2 Partneriaid allweddol

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (**CyT**)

Coed Cymru (**CC**)

Cyngor Gwynedd (**CG**)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (**UCF**)

Undeb Amaethwyr Cymru (**UAC**)

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent (YBGV)

Adran Amgylchedd Cynllunio Chefn Gwlad (AACChG)

Cadw

Canolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH)

Asiantaeth Amgylchedd Cymru (AA)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Prifysgol Cymru Bangor (PCB)

Grŵp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Grŵp Ystlumod Gwynedd (GYG)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

7.3 Cyfleon

Gwirfoddolwyr, myfyrwyr, perchnogion a rheolwyr tir, bwrdd twristiaeth

8 DIOLCHIADAU

Prif Awdur: Shaun Lewin

Ymgynghorwyr: Alison Johnston (CCGC), Sue Wells a (Grwp Ystlumod Gwynedd)

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig AEA: Astdiaeth Effaith Amgylchedd, GNG: Gwarchodfa Natur Genedlaethol, GNL: Gwarchodfa natur Leol

Fersiwn 1, 2004